# LLOYD, THOMAS ALWYN (1881 - 1960), pensaer a chynllunydd trefol

**Enw:** Thomas Alwyn Lloyd
**Dyddiad geni:** 1881
**Dyddiad marw:** 1960
**Priod:** Ethel Lloyd (née Roberts)
**Rhiant:** Elizabeth Jones Lloyd
**Rhiant:** Thomas Lloyd
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** pensaer a chynllunydd trefol
**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaernïaeth; Peirianneg, Adeiladu, Pensaerniaeth Forwrol ac Arolygu Tir
**Awdur:** Evan David Jones

Ganwyd 11 Awst 1881 yn Lerpwl, mab Thomas ac Elizabeth Jones Lloyd. Hanai'r teulu o gefndir ymneilltuol cadarn o sir Ddinbych, ac etifeddodd yntau gariad dwfn at gefn gwlad Cymru a diwylliant y genedl. Cafodd ei addysg yng ngholeg Lerpwl a Phrifysgol Lerpwl. Astudiodd bensaernïaeth yn Ysgol Bensaernïaeth y Brifysgol. O 1907 i 1912 bu'n gynorthwywr i Syr Raymond Unwin ar faestref Hampstead. Yn 1913 penodwyd ef yn bensaer ymgynghorol i Ymddiriedaeth Cynllunio Trefi a Thai Cymru, a chynlluniodd nifer o bentrefi newydd yng Nghymru a Lloegr, e.e. yn Abergwaun, Llanidloes, Porthaethwy, a Llangefni, eglwysi S. Ffransis, y Barri, a S. Margaret, Wrecsam, Undeb Myfyrwyr, Caerdydd, a thai i'r Comisiwn Fforestydd a'r Bwrdd Glo. Yr oedd yn un o sylfaenwyr Sefydliad Cynllunio Trefi yn 1914. Aeth i bartneriaeth ag Alex J. Gordon yn 1948. Ymunodd â Chymdeithas Hynafiaethau Cymru yn 1919, a bu'n gadeirydd ei phwyllgor cyffredinol, 1951-54, ac yn llywydd arni, 1958-9. Yr oedd ef a'i briod, Ethel Roberts, M.A. (priododd 1914), yn fynychwyr cyson cyfarfodydd blynyddol y gymdeithas. Yr oedd yn un o sylfaenwyr Cyngor Diogelu Harddwch Cymru Wledig yn 1929 a bu'n gadeirydd iddo o 1947 i 1959. Ef oedd llywydd sefydliad Penseiri Deheudir Cymru o 1929 i 1931, a llywydd Cyngor Cenedlaethol Cynllunio Tai a Threfi, 1932. Gwasanaethodd ar bwyllgor ymgynghorol y Bwrdd Iechyd ar gynllunio Tref a Gwlad, 1933-40, panel ymgynghorol yr Arglwydd Reith ar adlunio, 1941-42, y Cyngor Ymgynghorol Canolog ar Addysg Cymru, 1945-8, Y Comisiwn Brenhinol ar Henebion Cymru, 1949-60, pwyllgor y Postfeistr Cyffredinol ar stampiau, 1957-8.

Cyhoeddodd nifer o lyfrau: *Planning in town and country* (1935); *Brighter Welsh villages and towns* (1932), a chyda Herbert Jackson, *South Wales outline plan* (1947); a nifer o erthyglau.

Yr oedd yn ynad heddwch ac yn gadeirydd y Discharged Prisoners Aid Society yng Nghaerdydd. Rhoes Prifysgol Cymru radd LL.D. er anrhydedd iddo yn 1950, etholwyd ef yn F.S.A. yn 1953, a gwnaethpwyd ef yn O.B.E. yn 1958. Gwnaeth ei gartref yn Hafod Lwyd, Heolwen, Rhiwbina, Morgannwg, ond bu farw 19 Mehefin 1960 yn Torquay pan oedd ar wyliau yno.

## Awdur

**Evan David Jones**, (1903 - 1987)

## Ffynonellau


*Who's who in Wales* (1937)

*Who was who?*

*Archaeologia Cambrensis*, 1960


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Thomas Alwyn Lloyd

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18207249

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu